**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **25 Mawrth 2014**

**Aelod/Swyddog Arweiniol:** **Cyng. Huw Jones**

**Awdur yr Adroddiad:** **Jamie Groves, Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden**

**Teitl: Cyfleusterau Arfordirol yn y Rhyl a Phrestatyn - Opsiynau Rheoli Dros Dro**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Ym mis Ionawr 2014, ystyriodd y Cabinet ganfyddiadau adolygiad diwydrwydd dyladwy i Hamdden Clwyd Cyf a daeth i'r casgliad ei fod yn ormod o risg i'r Cyngor gymryd y cwmni drosodd. Penderfynodd y Cabinet roi'r gorau i gyllido Hamdden Clwyd Cyf o 1 Ebrill 2014 ymlaen oherwydd pryderon ynghylch ansawdd a lefel y ddarpariaeth gwasanaeth. Yn dilyn hyn rhoddodd Hamdden Clwyd Cyf y gorau i fasnachu a chau eu cyfleusterau yn y Rhyl a Phrestatyn ar unwaith.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r argymhellion sy'n codi o arfarniad manwl o gyflwr yr adeiladau a'r dadansoddiad manteision cost mewn perthynas â'r gwahanol opsiynau rheoli dros dro ar gyfer y cyfleusterau, (**ATODIAD A**), tra bod yr achos busnes ar gyfer cynnig hamdden llawer gwell ar yr arfordir yn cael ei ddatblygu.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad yn angenrheidiol i alluogi'r Cabinet i wneud penderfyniadau am y cyfleusterau a weithredwyd yn flaenorol gan Hamdden Clwyd Cyf - yr Heulfan, Canolfan Nova a Chanolfan Bowlio Gogledd Cymru - ac sydd wedi'u dychwelyd i reolaeth y Cyngor bellach.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet yn:

1. Cymeradwyo ailagor y Ganolfan Bowlio o fis Ebrill/Mai 2014 a bod swyddogion yn archwilio trefniant gweithredol yn y dyfodol mewn partneriaeth â'r clybiau bowlio presennol.

2. Cytuno bod Canolfan Nova yn parhau i fod ar gau hyd nes y ceir cytundeb i gynigion ailddatblygu Alliance Leisure ym mis Mai 2014, gan nodi y bydd darpariaeth campfa a ffitrwydd amgen dros dro ar gael yng Nghanolfan Hamdden Prestatyn, a gofyn i swyddogion archwilio cyfleoedd nofio mynediad cyhoeddus ar gyfer y gymuned leol gyda darparwyr lleol eraill.

3. Cytuno nad yw'r Heulfan yn ailagor fel cyfleuster dyfrol, gan nodi y bydd darpariaeth campfa, ffitrwydd a nofio amgen ar gael o Ganolfan Hamdden y Rhyl ac awdurdodi swyddogion i ymchwilio i gyfleoedd pellach ar gyfer trawsnewid y cyfleuster ar gyfer defnydd gweithgaredd 'sych' amgen.

4. Nodi y gall canlyniadau ariannol yr argymhellion gael eu cynnwys o fewn y gyllideb sydd ar gael ar gyfer cyfleusterau arfordirol yn y Rhyl a Phrestatyn.

5. Cadarnhau bod y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau cynnig hamdden dyfrol newydd ar gyfer y Rhyl drwy'r trefniadau y cytunwyd arnynt gan y Cabinet ym mis Chwefror.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

Ym mis Ionawr 2014, yn dilyn trafodaethau hir gyda Hamdden Clwyd Cyf, cytunodd y Cabinet i beidio â chymryd y cwmni drosodd a hefyd penderfynu rhoi'r gorau i ariannu o ganlyniad i bryderon parhaus ynglŷn ag ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Ym mis Chwefror 2014, rhoddodd Hamdden Clwyd Cyf y gorau i fasnachu a chau eu gweithrediadau yng Nghanolfan Nova, yr Heulfan a Chanolfan Bowlio Gogledd Cymru ar unwaith. Ar 28 Chwefror, cadarnhaodd Bwrdd Hamdden Clwyd Cyf y byddai'r cwmni yn cau drwy ymddatodiad gwirfoddol a phenodwyd Ymarferydd Methdaliad i weithredu fel ymddatodwr. Ar 7 Mawrth, fel rhan o'r broses ymddatod, dychwelwyd yr allweddi i bob un o'r 3 chyfleuster i'r Cyngor yn ei rôl fel landlord.

Dros y 2 fis diwethaf mae swyddogion wedi gwerthuso’r costau gweithredu, risgiau a chyfleoedd yn drylwyr pe byddai'r Cyngor yn gweithredu’r cyfleusterau arfordirol o fis Ebrill 2014 ymlaen. Mae’r gwahanol senarios yn cael eu hadolygu yn yr opsiynau a’r arfarniadau risg sydd ynghlwm. **(Atodiad A).** O ganlyniad i'r adolygiad hwn, mae’r risgiau a berir gan y strwythurau ffisegol, offer a pheiriannau yn y tri safle yn ogystal â'r ystyriaethau ariannol a rheoli yn gliriach, gan ganiatáu i argymhellion pendant ar gyfer pob cyfleuster gael eu gwneud.

**<u>Ystyriaethau Allweddol</u>**

### Canolfan Bowlio Gogledd Cymru

Mae'n ymddangos bod gan Ganolfan Bowlio Gogledd Cymru gefnogaeth a defnydd da, a'r potensial ar gyfer dyfodol tymor hir. Ymddengys hefyd ar y gwaethaf, ac yn seiliedig ar amserlen agor ychydig yn llai (2 ddiwrnod llai yr wythnos yn ystod y tymor tawel), y gallai'r Cyngor weithredu'r cyfleuster gyda cholled weithredol flynyddol fach yn unig pan ystyrir costau atgyweirio.

O ystyried y potensial ar gyfer dyfodol tymor hir ar gyfer y cyfleuster, gallai’r gwaith atgyweirio a sefydlu gael eu gostwng dros gyfnod hwy, neu eu cynnwys mewn arian grant a sicrhawyd gan gwmni buddiannau cymunedol. Felly, mae'n gwneud synnwyr i agor y Ganolfan Bowlio gyda chefnogaeth gan y Clwb/Clybiau i weithio tuag at wneud gweithrediadau’n niwtral o ran cost. Byddai hyn yn cynnwys ystyried y buddsoddiad gofynnol mewn gwaith atgyweirio to a charped newydd, a allai o bosibl gael eu hariannu drwy Benthyca Darbodus dros gyfnod o 10-20 mlynedd ar gost refeniw o tua £10k y flwyddyn.

### Canolfan Nova

Ym mis Chwefror, cytunodd y Cabinet i gomisiynu achos busnes ar gyfer ailddatblygiad llawn Canolfan Nova. Bydd yn ystyried hyn ym mis Mai. Os bydd yr achos busnes ailddatblygu yn gadarn ac yn dderbyniol, disgwylir i waith adnewyddu ddechrau yn yr hydref.

Mae'r arfarniad wedi dangos y byddai ailagor y Nova yn y cyfamser yn gofyn am wariant sefydlu a gwariant atgyweiriadau brys o tua £80k ac y byddai'n cymryd tan fis Gorffennaf i agor y cyfleuster. Er bod cyflwr yr adeilad yn rhesymol, yn anffodus oherwydd y cynnig cyfyngedig a hen, dangosir bod costau gweithredu yn llawer mwy na'r incwm tebygol gan

arwain at golled sylweddol (dros £208k) ar gyfer y cyfnod hyd at yr hydref, pan ddisgwylir i'r gwaith ailddatblygu ddechrau.

Ar y sail hon, nid yw'n gwneud synnwyr economaidd i ailagor y Nova cyn i waith adnewyddu gael ei wneud.

**Yr Heulfan**

Mae'r dewisiadau rheoli dros dro ar gyfer yr Heulfan wedi bod yn anodd i'w harfarnu ac wedi eu trin ar sail gwneud pob ymdrech i ailagor y cyfleuster, cyn belled ag y gellid mynd i'r afael â risgiau ariannol a gweithredol. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion gorau, mae'r asesiadau yn dangos nad yw ailagor yr Heulfan fel cyfleuster dyfrol yn opsiwn cost-effeithiol nac y mae modd ei reoli.

Mae'r gwerthusiadau yn dangos bod yr adeilad a'r offer mewn cyflwr gwael, a bod angen gwaith atgyweirio sylweddol i'w alluogi i agor a gweithredu yn ddiogel. Amcangyfrifwyd bod costau atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau oddeutu £218k ym mlwyddyn 1 a hyd at £500k dros y 2-3 mlynedd nesaf, gyda risg o fethiant peiriannau yn dal i fod yn uchel. O ystyried maint y gwaith sydd ei angen, ni fydd yn bosibl agor y cyfleuster cyn mis Gorffennaf. Mae angen cynnal rhai arolygiadau pellach eto, ond mae'n rhesymol tybio y bydd arolygiadau pellach yn ychwanegu at y costau. Dylid nodi y bydd y gwaith hwn yn fodd i fynd i'r afael â gwaith cynnal a chadw hanfodol yn unig ac ni fydd yn gwella'r cynnig cyffredinol neu brofiad ymwelwyr.

Gyda buddsoddiad mor sylweddol ei angen mewn gwaith atgyweirio a chynnal a chadw, mae'n hanfodol cynyddu incwm i'r eithaf. Yn anffodus, mae tuedd yn yr Heulfan o weld niferoedd ymwelwyr yn gostwng yn raddol - gostyngiad bron i 50% dros y 6 blynedd diwethaf - a hyd yn oed os yw hyn yn cael ei rwystro, ni fyddai'r cyfleuster yn cynhyrchu digon o incwm i dalu am ei gostau. Mae'r gwerthusiad yn dangos amcangyfrif colledion gweithredu dros y 3 blynedd nesaf o £271,818 ym mlwyddyn 1; £162,089 ym mlwyddyn 2 a £178,922 ym mlwyddyn 3. Nid yw'r rhain yn fforddiadwy ac ni ellir ystyried eu bod yn cynnig gwerth am arian.

Nid yw'n gwneud synnwyr economaidd i ailagor yr Heulfan fel cyfleuster hamdden dyfrol.

Opsiwn Hamdden Sych Amgen - Bu arwyddion cynnar o ddiddordeb yn y sector masnachol mewn defnyddio safle'r Heulfan ar gyfer cynnig hamdden 'ardal adrenalin' chwaraeon olwynion/antur sych. Ystyrir bod y rhain yn deilwng o archwiliad pellach am nifer o resymau: byddai cynnig sych yn llai costus i'w redeg a gallai ymestyn bywyd yr adeilad i fwy na dim ond ychydig flynyddoedd; byddai buddsoddiad a gweithredu gan weithredwr masnachol yn rhyddhau'r Cyngor o'r tynnu sylw parhaus o weithredu cyfleuster sy'n heneiddio; gallai atyniad gydol y flwyddyn posibl gael ei ddatblygu a byddai'n dangos cynnig masnachol sy'n gweithio ar yr arfordir i'r sector preifat.

Gofynnir i'r Cabinet awdurdodi swyddogion i fwrw ymlaen ag archwilio cynigion hamdden sych amgen ar gyfer safle gwag yr Heulfan.

**Darpariaeth hamdden amgen**

Rhagwelir, gan dybio bod yr achos busnes ailddatblygu yn gadarn ac yn dderbyniol, y gall y gwaith adnewyddu ar y Nova newydd gael ei gwblhau erbyn canol 2015. Yn y cyfamser, bydd darpariaeth campfa a ffitrwydd ar gael yng Nghanolfan Hamdden Prestatyn a bydd swyddogion yn archwilio cyfleoedd ar gyfer darpariaeth nofio cyhoeddus amgen gyda gweithredwyr eraill yn yr ardal.

Bydd ailosod y cyfleusterau yn y Rhyl yn cymryd mwy o amser i'w gyflawni. Mae gwaith eisoes ar y gweill i wahodd datganiadau cysylltiad gan ddatblygwyr i lunio partneriaeth gyda'r Cyngor wrth ddarparu cyfleuster hamdden dyfrol modern, o'r radd flaenaf ar gyfer y dref. Yn y cyfamser, bydd darpariaeth campfa, ffitrwydd a nofio ffurfiol ar gael o Ganolfan Hamdden y Rhyl ac, fel y nodwyd uchod, bydd swyddogion yn parhau i ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer datblygu cynnig hamdden sych/ymwelwyr ar safle gwag yr Heulfan.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae datblygu cynnig hamdden gwell ar hyd yr arfordir yn elfen o bwys yn y flaenoriaeth gorfforaethol 'Datblygu'r Economi Lleol' sy'n cyd-fynd yn agos ag adfywio'r Rhyl a'r llain arfordirol y tu hwnt.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Bydd yr arian na fydd bellach yn cael ei ddarparu i Hamdden Clwyd Cyf yn 2014/15 yn cael ei neilltuo i barhau i gyflwyno cynnig hamdden yn y dyfodol ar hyd yr arfordir, ac yn y cyfamser, i ddelio â'r costau a'r canlyniadau a amlygwyd yn yr adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?

Ni chynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb gan fod ffocws yr adroddiad ar y trefniadau rheoli dros dro ac nid yr atebion tymor hir.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Yn flaenorol, mae ymgynghoriadau wedi eu cynnal gyda Grwpiau Ardal yr Aelodau'r Rhyl a Prestatyn ac mae'r Aelodau wedi cael gwybod am y datblygiadau ers i Hamdden Clwyd Cyf roi'r gorau i fasnachu ac ers i'r adeiladau gael eu cau. Mae Aelodau wedi gweld y cyfleusterau yn ddiweddar er mwyn dod i ddeall eu cyflwr a'r materion sydd wedi eu hamlygu. Mae Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol, a'r Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden wedi ymgynghori â Chynghorau Tref y Rhyl a Prestatyn ar yr argymhellion arfaethedig.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Treuliodd y cyngor cryn dipyn o amser ac ymdrech, i ddechrau gyda Hamdden Clwyd Cyf, ac yn ddiweddarach ar ei ben ei hun yn edrych ar sut y gallai dyfodol y safleoedd hyn gael ei sicrhau. Dangosodd yr ymarfer diwydrwydd dyladwy na allai'r cyngor dderbyn y risgiau sy'n gysylltiedig â chymryd y cwmni drosodd nac i barhau i ariannu'r gweithrediadau presennol.

Derbyniodd y cyngor nad oedd y cwmni na'r cyfleusterau yn ddigon da a thynnodd ei gyllid yn ôl. Ar y pwynt hwn dewisodd Hamdden Clwyd fynd i mewn i ymddatodiad gwirfoddol.

Mae arfarniad opsiynau trylwyr wedi'i gynnal ac mae'r opsiynau i'w gweld yn yr adroddiad.

Yn glir, mae gan y ganolfan bowlio ddyfodol tymor hir a dylai barhau i weithredu gyda disgwyliad y bydd buddsoddiad pellach yn y cyfleusterau yn dod o gynyddu incwm ar y lleoliad.

Mae'n amlwg nad yw ailagor y Nova ar gyfer beth allai fod yn gyfnod byr iawn o amser yn gwneud synnwyr ariannol. Gydag achos busnes ar gyfer adnewyddu'r ganolfan yn ddyledus o fewn dau fis byddai'n annoeth ailagor y safle fel adwaith tymor byr, byrbwyll i'r sefyllfa. Mae'r argymhelliad yn yr adroddiad wedi ei gostio a'i ariannu. Nid oes digon o gyllideb i dalu am y gofyniad gwariant i ailagor y safle hyd yn oed yn y tymor byr. Felly, pe bai aelodau yn penderfynu ei ailagor bydd angen iddynt nodi pa gyllideb i'w thorri i'w ariannu.

Mae gan yr Heulfan faterion tebyg. Mae'r cyngor yn datblygu cynlluniau buddsoddi strategol ar gyfer y cynnig arfordirol yn y Rhyl.  Nid yw bwrw ymlaen gydag ailagor yn rhannol cyfleuster gwael (byddai sleidiau a phyllau penodol yn parhau ar gau beth bynnag) am gost sylweddol yn syniad da. Mae'r arfarniad opsiynau yn dangos y costau ychwanegol o ailagor, ond nid yw wedi ystyried unrhyw gostau i wella'r cynnig i ymwelwyr. Nid yw nifer o beiriannau ac offer trydanol wedi eu profi chwaith.  Felly, pe bai aelodau yn dymuno ailagor, bydd costau pellach yn cael eu codi ar brofion ychwanegol gyda'r risg y gall fod angen gwaith cynnal ar rywfaint o offer neu ailosod ar gost ychwanegol. Nid oes unrhyw gyllideb i dalu am y costau ychwanegol hyn felly byddai angen i aelodau nodi pa gyllideb i'w thorri i'w ariannu.

Y cynigion a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yw'r rhai mwyaf cadarn yn ariannol.  Maent yn dangos cost gyfartalog dros y cyfnod o dair blynedd o £175k y flwyddyn yn erbyn cyllideb gyfredol o £174k. Bydd y gweddill yn cael ei amsugno gan y gwasanaeth. Felly maent yn fforddiadwy.

Mae'r rhagamcanion ariannol o fewn yr adroddiad yn rhesymol ac yn gadarn.  Mae risgiau ynghlwm ag unrhyw ragolwg. Gyda chynlluniau presennol, mae'r Nova yn cael ei ailddatblygu, bydd cwmni preifat yn cymryd yr Heulfan yn gyflym a bydd y ganolfan bowlio yn cael ei rhedeg yn fwy effeithiol. Gallai hyn lleihau'r costau i'r cyngor yn sylweddol.

Fodd bynnag, mae risg gymharol fach na fydd yr un o'r uchod yn digwydd a bod costau annisgwyl ychwanegol yn codi o ystyried natur gymhleth ac anarferol yr amgylchiadau yr ydym ynddynt.

Ar y cyfan, rwy'n fodlon mai'r opsiynau a argymhellir yw'r mwyaf synhwyrol yn ariannol, fforddiadwy ac yn cynnig risg ariannol is i'r cyngor nag unrhyw un o'r opsiynau eraill a ystyriwyd.  Maent hefyd yn dal i adael y cyfle i'r ddau brif safle gael eu hailagor mewn ffordd fwy cynaliadwy.

Nid oes unrhyw gyllid ychwanegol ar gael i ailagor y cyfleusterau yn eu cyflwr presennol felly byddai angen i aelodau benderfynu pa gyllidebau y dylid eu torri pe byddent yn dewis ailagor. Fodd bynnag, oherwydd y cynigion tymor hwy ar gyfer y ddau safle yn amlwg ni fyddai gwariant ychwanegol yn cynnig gwerth am arian ac ar ei waethaf gallai fod yn wastraff sylweddol o arian cyhoeddus.

## 10. Pa risgiau sy'n bodoli ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae ailagor y cyfleusterau arfordirol ac yn arbennig yr Heulfan yn cario risgiau sylweddol - mae'r rhain wedi eu cynnwys yn y gwerthusiad ynghlwm.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000
Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972